

I ba raddau mae plant yn gweithredu'n annibynnol yng nghyfnod allweddol 2?

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn.
Targed 1	Prawf ddarllen yn ofalus i osgoi mân wallau.	Rwy'n darllen dros fy nghwaith.
Targed 2	Ehangu'ch darllen	Rwyf wedi darllen amrywiaeth o ffynonellau gwahanol.
Targed 3	Anelu at fod yn llai ddisgrifiadol.	Rwyf wedi enelu fod yn fwy beirniadol.

Cyflwyniad

Pwrpas yr ymchwil yma yw darganfod i ba raddau ydy plant cyfnod allweddol 2 (CA2) yn gallu gweithio'n annibynnol ac os ydynt yn elwa o wneud. Mae annibyniaeth o ddiddordeb i mi oherwydd rwyf wedi gweithio yn y Cyfnod Sylfaen am flynyddoedd, ac wedi gweld sut mae plant yn gweithio'n annibynnol. Oherwydd mae'r dysgu yn fwy ffurfiol ac ar y cyd yn CA2, mae annibyniaeth yn llai amlwg. Felly, gyda'r cwricwlwm newydd yn cael ei chynnal yn y blynyddoedd i ddod roeddwn â diddordeb i weld sut mae plant CA2 yn mynd i ymdopi. Y pwrpas yw cymharu gyda'r Cyfnod Sylfaen yn ôl profiad a llenyddiaeth i weld os mae plant yng nghyfnod allweddol 2 yn gallu gweithredu'n annibynnol yn ystod tasg ffocws.

Rhannwyd fy niddordebau gyda dwy fyfyrwraig arall oedd yn gweithio gyda disgyblion yr un oed â mi. Lleolwyd yr ymchwil yma mewn tair ysgol. Ysgol A sydd wedi ei lleoli mewn tref yn Sir Gaerfyrddin. Mae ysgol B yn weledig yn Sir Benfro sydd a lleolid ysgol C mewn tref yn Sir Benfro. Trafodais gyda fy mhartneriaid bod y wers yn mynd i ganolbwyntio ar dasg darllen a deall sydd wedi ei gwahaniaethu tair gwaith ar gyfer gallu gwahanol yn flynyddoedd 5 a 6. Mae yna tua 30 ym mhob dosbarth ond ar gyfer yr ymchwil byddwn yn canolbwyntio ar grŵp ffocws o dri phlentyn o bob ysgol. Mewn canlyniad ein cwestiwn ymchwil yw i ba raddau mae plant yn gweithredu'n annibynnol yng nghyfnod allweddol 2?

Llenyddiaeth

Mae yna lawer o lenyddiaeth ynghylch annibyniaeth mewn addysg. Edrychais ar hyn drwy ddarllen llyfrau, erthyglau, dogfennau llywodraeth ac Estyn i werthuso beth maent yn dweud am annibyniaeth. Yn syth roeddwn wedi darganfod fod yna llawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddysgu annibynnol sef ffactorau mewnol ac allanol. Rhai o'r ffactorau yw cymhelliant y dysgwr, sgiliau a gwybodaeth flaenorol, yr amgylchedd dysgu a'r perthynas rhwng yr athro a'r disgybl. Bydd yr adolygiad o lenyddiaeth yma yn canolbwyntio a'r trafod beth mae'r llenyddiaeth yn dweud am beth yw dysgu annibynnol a pam mae'n bwysig i hyrwyddo.

Beth yw dysgu'n annibynnol? Wrth ddarllen y llenyddiaeth mae'n amlwg bod annibyniaeth yn golygu bod plant yn gyfrifol am eu dysgu eu hunan wrth osod targedau, monitorio a gwerthuso eu datblygiad academaidd ac yna rheoli cymhelliant a chariad at ddysgu. Mae'r llenyddiaeth yn dangos bod dysgwyr ddim yn dod yn ddysgwr annibynnol ar ben eu hunain, mae angen iddynt ddysgu sut i wneud yn effeithiol gyntaf, ac mae hyn yn meddwl mai angen i athrawon i hyrwyddo hyn. (Meyer, 2010; Williams, 2003; Featherstone a Bayley, 2006)

Fel nodwyd Meyer et al (2008) mae ffactorau mewnol ac allanol yn dylanwadu a'r dysgu'n annibynnol. Sgiliau gwybyddol mae angen i'r dysgwr i ddatblygu yw datrys problemau, canolbwyntio cof, sgiliau meta wybyddol sydd yn cysylltu gyda'r ddealltwriaeth o sut mae dysgu yn digwydd yw'r ffactorau mewnol. Ffactorau allanol yw'r amgylchedd dysgu sy'n cynnwys yr athro a'r perthynas rhyngddyn nhw a'r dysgwr a'r adnoddau a chyfleodd sydd ar gael iddynt.

Dywed Wilson a Murdoch (2009) yr ystafelloedd dosbarth yw ble mae'r trafodaethau yn cael ei rhannu yn gyson am ddysgu a ble mae'r athro yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng disgyblion a sut a beth maent yn dysgu. Ond maen pwysig bod yr athro yn scaffoldio'r plant gan roi cymorth iddynt a gosod tasgau addas sy'n heriol ond tu fewn i'w potensial tan fod e'n hyderus i wneud yn annibynnol. (Williams, 2003) Wrth ystyried y pwnc hwn gellid cysylltu gyda damcaniaeth Vygotsky am sut mae plant yn dysgu. Credwyd Vygotsky (1978 dyfynnwyd yn Smidt) bod plant yn gweithio ar ddwy lefel, sef beth maent yn gallu gwneud ar ben eu hunan ac yna gydag arweiniad a chymorth oedolion neu gyfoedion.

Dyma sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn gweithredu.

“Mae ymarferwyr yn gosod yr amgylchedd ac yn sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i alluogi plant i ymarfer, ailadrodd a mireinio eu sgiliau mewn ffordd bwrpasol” (Llywodraeth Cymru, 2017)

Mae yna dasg ffocws ble mae'r plant yn dysgu am wybodaeth neu sgil newydd gydag oedolyn. Wedyn maent yn cael y cyfle i ddatblygu'r rhain trwy adnoddau ymarferol gosodwyd iddynt yn yr ardaloedd. Yn ogystal â hyn mae'r athrawon yn darparu 'darpariaeth barhaus' ble mae'r plant yn gallu ymarfer ac ailadrodd eu sgiliau gan gymryd perchnogaeth o'i dysgu.

Dywed Wilson a Murdoch (2009) tra bod ni'n deall fwy am addysgeg effeithiol rydym yn adnabod bod angen mwy o weithio mewn grwpiau bach a chyfleoedd o ddysgu 1 i 1 yn enwedig yn yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gweithredu hyn eisoes. Felly, er mwyn i hyn i weithio mae angen i'r disgyblion allu weithio'n annibynnol a rheoli eu dysgu eu hun. Ond mae angen iddynt gael y cyfleoedd i fod yn annibynnol er mwyn iddynt fod yn effeithiol. (Wilson a Murdoch, 2009; Meyer et al, 2008; Perry, 2006; Hattie, 2012) Hynny yw mai gwahaniaethu yn bwysig oherwydd os mae'r gwaith yn rhy anodd neu yn rhy rhwydd bydd y plant yn colli diddordeb. Mae'n bwysig bod yr athro yn adnabod eu dysgwyr ac yn gosod tasgau addas iddynt gwblhau yn annibynnol.

Er mwyn i ddysgwyr fod yn gyfrifol am ddysgu ei hunan mae angen iddynt gael y wybodaeth a'r sgiliau sydd angen iddynt fod yn barod i ddysgu am weddill eu bywydau. Dyma'r weledigaeth y cwricwlwm newydd i Gymru. Awgrymodd Graham Donaldson (2015) yn ei ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' bod un o'r pedwar pwrpas y cwricwlwm yw annog plant i fod yn uchelgeisiol ac yn barod i ddysgu am weddill eu bywydau. Cytunwyd Estyn (2018a) gan esbonio bod ysgol arloesi ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, wedi nodi bod annibyniaeth ddysgwyr yn

“hanfodol er mwyn parhau i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu a chodi lefelau cyrhaeddiad, cyflawniad a lles” (Estyn, 2018a)

Y broblem fwyaf sy'n wynebu athrawon ar hyn o bryd yw sicrhau bod y plant yn cael y cyfleoedd i fod yn annibynnol a bod yn gyfrifol am ei dysgu ei hun, ond sicrhau bod targedau'r cwricwlwm yn cael eu cyflawni yn ogystal. (Williams, 2003) Felly mae'r cwricwlwm newydd yn mynd i alluogi'r athrawon fod yn fwy hyblyg am sut i ddysgu'r sgiliau gan ennyn diddordeb y plant er mwyn iddynt fod yn fwy annibynnol gan seilio gwersi gyda'r pedwar diben yng nghanol y pwrpas ac yna lluniadu gyda'r sgiliau.

Mae yna lawer o strategaethau mae athrawon yn gallu gwneud i hyrwyddo annibyniaeth, er enghraifft asesu ar gyfer dysgu sy'n cynnwys hunanasesu ac asesu cyfoedion a gwybod y meini prawf llwyddiant. Mae'n bwysig bod y plant yn ymwybodol am beth yw'r disgwyliadau

ar gyfer cyflawnir gwaith neu nod y wers ac yn gwneud penderfyniadau am eu dysgu wrth helpu gosod y meini prawf a gwerthuso dysgu eu hunan. (Perry, 2006; Wiliam a Black, 1998)

Wrth i'r plant gweld y disgwyliadau ac asesu gwaith ei hunan gallant weld beth wnaethant yn dda a beth mae angen gweithio ar, mae eu cymell i ddysgu yn datblygu eu meddylfryd twf. Cysylltir hyn a gwaith Dweck (2017) sy'n edrych ar sut mae meddylfryd yn effeithio ar gymhelliant i ddysgu. Mae pobl sydd â meddylfryd twf yn gweld methiant fel cyfle i ddysgu o'i chamgymeriadau. Felly, wrth weld y meini prawf a hunan asesu neu asesu cyfoedion maent yn gallu gweld eu camgymeriadau a gweithio arnynt gan ddatblygu eu sgiliau i weithio'n annibynnol.

Noda Estyn (2019) bod ysgol wedi defnyddio gwobrwyo i helpu plant i fod yn annibynnol gan roi pwyntiau iddynt pan maent wedi cwblhau tasg annibynnol neu weithio'n dda gyda'i gilydd. Pan maent yn cyrraedd y nifer o bwyntiau disgwylidig gallant ymuno mewn 'amser antur' mae'r ysgol yn cynnal. Ond dywed Perry (2006) bod gwobrwyo yn gallu cael yr effaith negyddol os maent ddim yn cael eu gwobrwyo'n aml ac yn colli diddordeb i ddysgu. Felly mae'n bwysig bod yr athro yn hyrwyddo strategaethau yn ofalus.

Methodoleg

Mae'r ymchwili yn dilyn dull o astudiaeth gwers ar y cyd gyda dwy fyfyrwraig arall. Rydym yn defnyddio'r dull yma er mwyn canfod arfer da. Cafodd y dull yma ei ddatblygu yn Japan ond mae'n cael ei ddefnyddio ar draws y byd erbyn hyn. Esboniad EEF (2017) o astudiaeth wers yw gwersi sy'n cael eu cynllunio gan grŵp bach o athrawon sy'n mynd a'r afael nod dysgu penodol. Maent yn arsylwi ei gilydd yn addysgu'r gwersi er mwyn dadansoddi ac addasu neu wella'r cynlluniau ar gyfer y wers nesaf. Mae Dudley (2014), sef arbenigwr mewn astudiaeth gwers, yn nodi bod y prif bwrpas o astudiaeth wers yw dadansoddi addysgu a dysgu wrth gynllunio gwersi, arsylwi ein gilydd er mwyn gwella cynnydd y plant ac ymarfer athrawon i sicrhau arfer da ar draws addysg.

Roeddwn wedi cynllunio ein gwersi ar y cyd. Noda Hattie (2012) bod cynllunio gydag athrawon eraill yn bwerus ar gyfer dadansoddi a gwerthuso'r effaith ar ganlyniadau disgyblion. Addysgwn y gwersi yn ein hysgolion a dosbarthiadau PAP1, felly roedd y plant yn gyfarwydd â ni ac roeddwn ni yn adnabod eu gallu. Y dulliau o gasglu data a ddefnyddir oedd: arsylwi anghyfranogol, grwpiau ffocws a nodiadau adfyfyriol. Mae mwyafrif o'r data a

gesglir yn ansoddol ond mae ychydig bach o ddata meintiol yn cael ei gasglu yn ystod yr arsylwadau. Er enghraifft sawl gwaith maen nhw'n gofyn i'r athro am gymorth.

Tra bod un ohonom yn addysgu roedd y ddwy arall yn arsylwi yn anghyfranogol i weld sut mae'r tri phlentyn, sef y grŵp ffocws, o alluoedd gwahanol yn ymddwyn ac yn ymdrechu yn ystod tasg annibynnol. Arsylwi yw'r proses o wyllo rhywun yn gwneud tasg neu weithrediadau er mwyn casglu data.

"it can be used to better understand individuals or groups in any setting that is relevant to your research topic" (Bell, 2014 ,t 210)

Wrth arsylwi roedden yn ysgrifennu nodiadau am beth maent yn gweld a chlywed y plant yn gwneud a dweud. Defnyddiwyd cynllun arsylwi (gweler atodiad 4) i nodi gwybodaeth wrth arsylwi. Roedd y templed arsylwi yn dilyn dull o lled-strwythedig, roedd cwestiynau caeedig wedi cael ei pharatoi o flaen llaw a hefyd roedd lle ar y diwedd i ychwanegu nodiadau annisgwyl. Noda Bell (2014) taw un anfantais o ddefnyddio arsylwi fel dull o gasglu data yw bod arsylwyr yn gweld a chlywed pethau gwahanol ac yna yn cymryd safbwynt gwahanol. Dyma'r rheswm defnyddiwyd cynllun arsylwi lled-strwythedig er mwyn ffocysu ein harsylwadau.

Caglwyd sylwadau wrth blant yn defnyddio dull cyfweiliad. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda'r cyfranogwyr ar y cyd ar ôl bob gwers er mwyn casglu gwybodaeth am eu teimladau am y dasg ffocws annibynnol. Roedd y cyfweiliadau yn lled- strwythedig oherwydd paratowyd y cwestiynau ymlaen llaw ond roedd cyfle iddynt fynegi syniadau arall os dymunwyd. Cynhaliwyd cyfweiliadau mewn ystafelloedd canolog, yn agos i'r ystafelloedd dosbarth a staff yr ysgol. Dywed Punch ac Oancea (2014) bod cyfweiliadau yw ffordd fwyaf amlwg o gasglu data mewn ymchwil ansoddol oherwydd rydych yn archwilio mewn i'w teimladau a chanfyddiadau pobl. Defnyddiwyd iPad yr ysgol i recordio'r llais y cyfranogwyr yn ystod y cyfweiliadau yn unig. Noda Bell (2014) taw'r anfantais o gynnal cyfweiliadau yw bod e'n hyblyg, sy'n golygu os mae'r cyfwelydd agen dilyn syniadau mae'r dull yn galluogi hyn sy'n wahanol i holiaduron.

Yn yr un modd, dyma'r rheswm defnyddiwyd y dull o grŵp ffocws. Mae cynnal cyfweiliad mewn grwpiau yn galluogi trafodaeth rhwng y disgyblion am eu barnau a theimladau am y dasg ffocws. A naill ai'n cytuno neu'n anghytuno gyda'i gilydd a datgelu gwybodaeth ni fydd wedi codi mewn cyfweiliad 1 i 1 neu mewn holiadur.(Punch ac Oancea, 2014). Penderfynwyd defnyddio tri phlentyn o allu gwahanol i weld os mae gallu yn cael unrhyw effaith ar lefel annibyniaeth.

Er mwyn adfyfrio yn drylwyr ar ôl casglu'r wybodaeth o'r wers roedden yn defnyddio dull Brookfield (2015). Mae'r dull yma yn edrych drwy bedwar lens gwahanol er mwyn casglu

safbwyntiau o bedwar persbectif gwahanol wrth adfyfrio. Y pedwar safbwynt yw'r athro, y disgyblion, fy nghydweithwyr a llenyddiaeth. Credwyd Brookfield (2017, t 20) bod

“Critical reflection is quite simply, the sustained and the intentional process of identifying and checking the accuracy and validity of our teaching assumptions.” (Brookfield, 2017, t 20)

Y pwrpas o adfyfrio yw gwerthuso ein hymarfer fel athrawon i godi safonau plant a'i chyfleoedd i ddysgu yn effeithiol gan edrych o safbwyntiau gwahanol a gwneud newidiadau perthnasol. Casglwyd y pedwar safbwynt wrth ddarllen llenyddiaeth, cyfweld a'r plant, arsylwi ein gilydd ac adfyfrio a'r gwersi ein hunain.

Ar ôl y gwersi byddwn yn marcio'r gwaith a defnyddio iPad yr ysgol i dynnu lluniau gwaith (Gweler atodiad 11) terfynol yn unig yn sicrhau na fydd lluniau o'r plant yn cael ei gymred. Mae tynnu lluniau yn ffordd gyflym o gasglu gwybodaeth a thystiolaeth o'r gwaith mae'r plant wedi cwblhau yn ystod y dasg annibynnol.

Ystyriaethau moesegol.

Pan mae unrhyw ymchwil yn cael ei gynnal, yn enwedig gyda phlant, mae angen dilyn canllawiau moesegol. Trwy gydol yr ymchwil gwnaethom ddilyn canllawiau BERA a chanllawiau'r brifysgol ynghylch moeseg. Er mwyn cadw i'r canllawiau yma mae'r enwau'r ysgolion a'r plant yn cael ei gadw'n anhysbys, bydd yr ysgolion yn cael ei adnabod yn ysgol A, B a C a'r plant yn cael ei alw'n plentyn 1, 2, 3 ayyb. Derbyniodd y plant a'u rhieni lythyr yn egluro natur yr ymchwil ac y gallent dynnu allan ar unrhyw adeg, os roeddent yn hapus i gymryd rhan roeddent yn arwyddo'r llythyr er mwyn roi caniatâd. (gweler atodiadau 6-7) Dywed Blackburn (2015) bod derbyn caniatâd plant i gymryd rhan mewn ymchwil yn un o'r heriau mwyaf. Felly mae'n bwysig esbonio i'r plant yn llawn a'i bod nhw'n deall y broses i gyd. Cadwyd yr holl wybodaeth, papur a digidol, mewn man diogel o dan gyfrinair neu amddiffyniad allweddol. Mae'r ystyriaethau moesegol yn cael ei drafod yn fwy manwl yn y ffurflen moeseg.

Canlyniadau Astudiaeth Gwersi a dadansoddiad

Gwers 1 (Ysgol A a phlant 1, 2 a 3)

Cynlluniwyd gwers iaith Cymraeg ar rygbi'r chwe gwlad. (Gweler atodiadau 1-3) Yn fy ngwers i, sef y wers gyntaf, roedd y plant wedi gwrandao'n astud ar y cyflwyniad ac wedi

cyfrannu gan ateb cwestiynau'n dda. Roedd y cyflwyniad wedi ennyn diddordeb y plant gan gysylltu'r darn darllen a deall gyda'r gêm rygbi'r penwythnos cyn. Esboniais fod y dasg yn annibynnol cyn holi'r plant am beth rwy'n meddwl wrth annibynnol, roedd pob un yn deall beth roeddwn yn golygu wrth ddweud 'gweithio ar ben eich hun'. Holais y plant am y meini prawf llwyddiant (MPLI) sy'n gysylltiedig â thasg darllen a deall ac yna gosod nhw ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Credwyd llawer o arbenigwyr yn y pwysigrwydd o drafod disgwyliadau'r athrawes gyda'r plant a chyd-ddylunio MPLI, er mwyn bod yn llwyddiannus ac i gymred cyfrifoldeb am ddysgu eu hunan (Wiliam a Black, 1998; Hattie, 2012; Estyn, 2018b; Dweck 2017)

Wrth weithio ar y dasg annibynnol roedd rhan fwyaf o'r plant wedi llwyddo i wneud yn annibynnol ac yn hollol dawl wrth weithio. Wrth ddilyn y MPLI, darllenwyd y plant y testun cyn ceisio ateb y cwestiynau. Yn ystod y dasg gofynnwyd plentyn 1 (gallu uchel) am gymorth am sut i osod y dyddiad, nod y wers a'r teil yn ei llyfr, eglurhad ar un cwestiwn oherwydd roedd hi'n ansicr o'r ystyr y gair. Ac yna gofyn am ganiatâd i ôl geiriadur. Adlewyrchwyd hyn yn nodiadau'r arsylwyr (Atodiad 8.2). Fe wnaeth plentyn 2 (gallu canolig) gofyn am gymorth i'r athrawes a'i ffrind sawl tro am ble i chwilio am yr ateb yn y darn. (Gweler atodiad 12) Ni ofynnwyd plentyn 3 (gallu is) am gymorth o'r athrawes. Ni chwblheiodd y tri phlentyn, y dasg erbyn diwedd y sesiwn, a chyrhaeddodd nhw gwestiynau gwahanol a ddisgwyliid oherwydd ei allu gwahanol. (Gweler atodiad 11)

Ar ddiwedd y wers gofynnwyd i'r plant i enwi ffeithiau oeddent wedi dysgu am y rygbi chwe gwlad. Roedd plentyn 1 a 2 yn cynnig ateb yn syth (plentyn 1 yn hyderus iawn, plentyn 2 bach yn swil, cynigodd plentyn 3 ddim ateb) sydd yn dangos eu lefel o ddealltwriaeth am y darn.

Wrth adfyfrio a thrafod gyda fy nghydweithwyr mae'n ymddangosol bod y plant wedi cyrraedd nod y wers wrth weithio'n annibynnol ac roedd y plant i weld yn hapus wrth wneud. Fe gadarnhawyd hyn yn y cyfweiliad (Atodiad 8.3). Ond pan ofynnwyd beth allwn newid ar gyfer y wers nesaf dywedon nhw i gyd hoffent weithio gyda phartner, ond yn amlwg byddwn ddim yn gallu gwneud hwn ar gyfer yr ymchwil hwn..

Arsylwodd fy nghyfoedion bod plentyn 1 a 2 yn helpu cyfoedion ar y bwrdd. Roedd plentyn 3 yn derbyn help o'i chyfoedion gan gymryd cymorth a gwrando a'r ymatebion yr athrawes i gwestiynau plentyn arall. Ar ôl cyfnod collodd hi ddiddordeb gan adlewyrchu ansicrwydd a

phryder am ofyn am gymorth yr athrawes. (Atodiad 8.2) Ar gyfer y wers nesaf, penderfynon ni roedd angen gwella'r wers gan addasu rhai o'r cwestiynau (Gweler atodiad 5) er mwyn i'r plant i ddeall yn well. Hefyd roedden wedi penderfynu gludo'r meini prawf yn llyfrau plant yn hytrach na ar sleid ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. (Gweler atodiad 2)

Gwers 2 (Ysgol B a phlant 4, 5 a 6)

Yn yn ail wers roeddwn yn arsylwi. Ar ddechrau'r wers cyflwynodd y darpar athro'r dasg ac esbonio sut i osod y gwaith gan holi'r plant 'os angen ysgrifennu'r cwestiynau?' 'ydyn ni'n ateb mewn brawddegau llawn?' ayyb. Roedd y plant yn siaradus iawn wrth ludo ac ysgrifennu'r dyddiad yn eu llyfrau. Wrth iddynt ddarllen y darn roedden wedi tawelu tipyn ond dal yn sgwrsio ar y degau ond am y dasg fel arfer.

Wrth adfyfrio gyda fy nghydweithwyr teimlwyd fod plentyn 4 wedi ymdrechu i weithio'n annibynnol gan anwybyddu'r aflonyddwch ar ei bwrdd. Teimlwyd fel ei bod eisiau plesio wrth ofyn cwestiynau tu hwnt i'r dasg cyn dechrau e.e.. "oes angen imi gofnodi'r cwestiynau" i sicrhau bod hi'n gwneud y dasg yn gywir. (Atodiad 9.1) Gwrthwyneb i hwn roedd plentyn 6 yn edrych yn ansicr iawn ar ddechrau'r wers, gofyn am gymorth wrth y darpar athro a'i chyfoedion yn aml. Diffyg canolbwyntio ar ôl cyfnod byr, codi i fynd i'r tŷ bach, siaradus iawn gyda'i chyfoedion o amgylch y bwrdd gan sgwrsio am bethau amhersonol i'r dasg neu'r testun. Ar y cyfan teimlwyd fod plentyn 6 wedi gweld y dasg yn anodd am iddo golli ffocws ar y dasg yn gynnwys iawn. Wrth i'r athro agosáu tueddwyd gofyn cwestiwn yn syth neu erbyn diwedd dywedir ei fod yn "stuck" er mwyn iddo dderbyn eglurhad.

Roedd plentyn 5 yn gymysg o'r ddau, roedd e'n eithaf siaradus gyda'i ffrindiau am y testun, ac yn cynnig help i'w cyfoedion pan roedd e'n gallu gan dangos iddynt ble i ddod o hyd i'r ateb, yn hytrach na rhoi'r ateb iddynt. Ar y cyfan teimlwyd fod plentyn 5 wedi ymdrechu i gwblhau'r dasg yn annibynnol ond wedi gofyn i'r athrawes am gwpl o'r cwestiynau oedd yn debyg. Ar ddiwedd y wers gofynnwyd y darpar athro'r plant i enwi ffeithiau oeddent wedi dysgu am y rygbi chwe gwlad. Roedd plentyn 4 a 5 yn cynnig ateb yn syth. Ond cynigodd plentyn 6 ddim, sydd yn dangos eu lefel o ddealltwriaeth am y darn.

Wrth adfyfyrio a thrafod mae'n ymddangosol bod plentyn 4 a 5 wedi cyrraedd nod y wers gan ymdrechu i weithio'n annibynnol ond ddim wedi llwyddo i orffen y gwaith erbyn diwedd y sesiwn. Roedd e'n amlwg bod plentyn 6 wedi gweld gweithio'n annibynnol yn anodd.

Er mwyn addasu'r wers erbyn y wers nesaf penderfynon ni i addasu'r cwestiynau ymhellach i wneud yn glir bod y ddau gwestiwn yn wahanol a gosod geiriadur a'r pob bwrdd. Hefyd, gosod y testun a'r un daflen (2 ddau ochr) yn hytrach na dwy dudalen- rhywbeth roedd y plant wedi awgrymu yn y cyfweiliad oherwydd roedd e'n ddryslyd. (Atodiad 9.3) Er lles y arsylwir penderfynon ni symud y plant i eistedd yn lle penodol oherwydd yn y ddwy wers ganlynol roedd e'n anodd clywed a gweld pob plentyn drwy'r wers gyfan. Yn Ysgol A a B roedd y plant yn eistedd yn ei grwpiau iaith fesul gallu. Felly, wrth symud y plant byddwn yn gallu casglu data yn haws.

Gwers 3 (Ysgol C a phlant 7, 8 a 9)

Yn y drydedd a'r wers derfynol cyflwynodd y darpar athro'r dasg ac esbonio'r ffaith bod e'n annibynnol a gofyn am ei meddyliau am beth yw annibynnol. Cyn gosod y gwaith symudodd y darpar athro'r plant i eistedd gyda'i ffrindiau a lleoli plant y grŵp ffocws ar ddiwedd y rhesi. Roedd hwn yn gwneud arsylwi yn haws i ni oherwydd roedd y plant yn eistedd yn agos at ei gilydd yn hytrach nag lledaenu ar draws y dosbarth. Ar ddechrau'r wers roedd pob disgybl yn gweithio'n annibynnol ac yn ymdrechu i gwblhau'r dasg gan ddilyn y MPLI oedd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Wrth iddynt weithio roedd y plant yn amlwg wedi mynd i'r afael â'r dasg yn llwyddiannus. Defnyddiwyd pob un geiriadur oedd ar eu bwrdd a defnyddiwyd plentyn 7 (gallu mwy abl a thalentog (MATH)) adnodd ychwanegol sef pyramid iaith. Mae hyn yn dangos bod hi'n gweithio'n hollol annibynnol ac yn gwybod beth i ddefnyddio i'w helpu. Noda Hattie (2012) y pwysigrwydd o osod adnoddau perthnasol i'r plant i ddefnyddio ac yn gwybod sut i ddefnyddio yn gywir. Ar ôl fynd i ôl y pyramid gofynnwyd i'r darpar athro am gysur bod e'n iawn i ddefnyddio. (Atodiad 10.3) Mae hyn yn awgrymu bod hi'n pryderu bod hi ddim yn cwblhau'r dasg yn annibynnol gan ddefnyddio hyn.

Ar y cyfan roedd plentyn 8 (gallu canolig) a phlentyn 9 (gallu gwan) wedi gweithio'n annibynnol gan ofyn i'w cyfoedion am gymorth, gan ddefnyddio dull y dosbarth sef HACA wrth gwblhau tasgau annibynnol. Ar ôl i'r ddau blentyn yma gwblhau'r dasg yn gyflym gosodwyd y darpar athro her iddynt (cwestiynau mwy uchelgeisiol). Yn syth roedd e'n amlwg bod plentyn 9 wedi colli diddordeb a'i ganolbwyntio wedi lleihau wrth iddo chwarae gyda phen, siglo'i gadair a chodi ar ei draed. Ar ddiwedd y wers roedd y tri phlentyn yn gallu ateb cwestiynau am y dasg yn hyderus felly mae'n amlygu bod nhw wedi deall y dasg ac wedi elw wrth wneud yn annibynnol.

Wrth adfyfrio gyda fy nghydweithwyr teimlwyd bod y plant ar y cyfan wedi cyrraedd nod y wers gan weithio'n annibynnol, roedd y plant ddim wedi gofyn i'r athrawes am gymorth llawer, ond am sut i osod y gwaith neu am gysur. Mae'n amlwg bod y plant yn iawn wrth weithio'n annibynnol ac fe gadarnhawyd hyn yn y cyfweiliad. (Gweler atodiad 10.3)

Dywedodd plentyn 7 'dwi'n iawn da gweithio'n annibynnol' cytunwyd y ddau blentyn arall gan ddweud 'a fi'. Pe bai ni'n gwneud y wers eto neu barhau gyda'r ymchwil byddwn ddim yn newid y wers eto oherwydd roedd y plant i gyd wedi llwyddo i gwblhau'r dasg yn annibynnol ac yn teimlo bod yr adnoddau i gyd gyda nhw i'w helpu.

Canfyddiadau

Cwestiwn yr ymchwil oedd i ba raddau mae plant yn gweithredu'n annibynnol yng nghyfnod allweddol 2? Mae'r ymchwil yn dangos bod y plant yn y grŵp ffocws yma yn gallu gweithredu yn annibynnol yn eithaf da.

Alluoedd gwahanol

Mae'n amlwg bod allu'r plentyn yn gallu effeithio lefel ei annibyniaeth. Wrth werthuso'r canlyniadau'r gwersi mae'n dangos bod y plant sydd a gallu uchel neu MATH yn gweithredu'n hollol annibynnol ac yn defnyddio'i mentrau i fynd i ôl adnoddau ychwanegol. Ond roedd y plant oedd a gallu is angen mwy o gymorth o'r athro neu gyfoedion. Cysylltu'r hyn gyda'r damcaniaeth bod angen datblygu ffactorau mewnol er mwyn dysgu annibynnol yn bodoli. (Meyer, 2008). Efallai mai'r plant yma ddim yn hollol hyderus pan gwneud tasg annibynnol oherwydd mae angen fwy o 'scaffaldio' arnynt wrth yr athro neu gyfoedion. Creda Vygotsky (1978, dyfynnwyd yn Featherstone a Bayley, 2006)

"What a child can do with assistance today she will be able to do herself tomorrow"

Hynny yw, mae angen iddynt gael y cymorth er mwyn gallu dysgu i wneud gyda chymorth cyn gwneud yn annibynnol.

Lefel y gwaith

Er bod y gwaith wedi ei gwahaniaethu ar gyfer y tri gallu gwahanol (Gweler atodiad 5) roedd y plant dal ddim wedi benni ei gwaith yn yr amser priodol ac wedi cyrraedd manau gwahanol. Mae hyn yn dangos bod y plant o alluoedd gwahanol yn gweithio ar gyflymder gwahanol oherwydd ei phrofiad blaenorol a'i sgiliau meta wybyddol. Dywed Williams (2003) bod yna raddau amrywiol o annibyniaeth mewn dosbarth o blant ac mae cyfrifoldeb a'r athrawon i gydnabod hyn ac i ddarparu cyfleoedd addas iddynt gan gynnwys llais y plentyn. Mae hyn er budd y plant am nawr ac am y dyfodol.

Dangoswyd yr ymchwil bod e'n amlwg bod angen i'r gwaith fod yn addas i'r plentyn neu byddant yn colli diddordeb. Fel enghraifft, plentyn 6 wedi colli diddordeb yn gyflym iawn ar ôl cael llawer o gymorth o'r athrawes a'i chyfoedion a dal ddim cael trafferth. Enghraifft arall oedd plentyn 9 pan gollodd e ddiddordeb pan osodwyd yr athrawes her iddo ar ôl gorffen y dasg. Noda Hattie (2012) mae angen i athrawon gwybod sut mae plant yn dysgu yn ogystal â beth maent yn dysgu er mwyn gallu darparu'r adnoddau a chymorth priodol iddynt. Yn ogystal â hyn noda Bearne (2010) bod gwahaniaethu gwaith ddim ond yn gosod gwaith ar lefel y plant ond hefyd yn cydnabod diddordebau plant a beth sy'n mynd i gadw ei diddordeb i ddysgu.

Amgylchedd dysgu

Pan rydym yn sôn am yr amgylchedd dysgu rydym yn golygu'r oedolion, disgyblion a'r adnoddau ar gael yn y dosbarth nid yn unig yr ystafell dosbarth ond yr ysgol gyfan.

Mae'r ymchwil yn dangos bod cymorth o'r amgylchedd dysgu neu gyfoedion yn amlwg yn cael effaith mawr. Roedd pob plentyn wedi defnyddio rhyw fath o adnodd neu gymorth o'r amgylchedd. Dywed Barnes (2015) bod rheoli'r amgylchedd dysgu yn un o'r pethau pwysicaf mae athrawon yn gallu gwneud er mwyn hyrwyddo cymhelliant plant i ddysgu. Wrth greu amgylchedd dysgu ble mae'r plant yn teimlo'n hyderus a ddiogel i ofyn cwestiynau a chyfrannu at ddysgu eu hunain. (Hattie, 2012)

Casgliadau

Mewn canlyniad mae'r ymchwil yn cefnogi'r llenyddiaeth sy'n dweud bod yna ffactorau gwahanol yn effeithio annibyniaeth. Mae'n amlwg fod ffactorau mewnol ac allanol yn effeithio

ei allu i weithio yn annibynnol ac mae angen cydnabod hyn i allu darparu'r gefnogaeth gywir i blant.

Y brif neges yw bod plant yn gallu gweithio'n annibynnol ond mae rôl yr athro yn hanfodol. Mae angen iddynt gydnabod sut mae plant yn dysgu ac yn defnyddio llais y plant ar gyfer creu adnoddau a thasgau perthnasol i gefnogi annibyniaeth. Noda Williams (2003) bod cyfrifoldeb yn mynd law yn llaw gydag annibyniaeth, felly mae angen i blant i gymryd cyfrifoldeb o'u dysgu wrth iddynt gael cyfleoedd i fod yn annibynnol.

Wrth adfyfrio gwelwyd y cryfderau'r fethodoleg oedd defnyddio amryw o ddulliau tu fewn i'r dull astudiaeth gwers, sef cynllunio ar y cyd, arsylwi, cyfweiliadau ac adfyfrio. Dywed Dudley (2015) bod ymchwil yn dangos bod astudiaeth gwersi yn codi safonau plant ac yn datblygu ymarfer yr athrawon. Mae'r astudiaeth gwers yn gweithio oherwydd mae athrawon yn cydweithio ac yn adfyfrio gyda'r gilydd er mwyn ffocysu ar un agwedd o addysg sef annibyniaeth yn yr ymchwil hyn. Er bod y dull o astudiaeth gwers yn ddibynadwy ac fe allwn gyffredinolï'r canfyddiadau teimlaf fod yna cyfyngiadau yn y dulliau tu fewn i'r astudiaeth gwers hefyd.

Cyfyngiadau fwyaf am y fethodoleg oedd y diffyg amser i baratoi, adfyfrio a mireinio'r dulliau cyn ac ar ôl pob gwers fel awgrymwyd Dudley (2015). Credaf fod y cynllun arsylwi yn rhy ganolbwyntiedig ar y degau felly yn ogystal defnyddiwn ni taflen blaen i nodi unrhyw sylwadau ychwanegol. Dywed Cohen et al(2011) bod arsylwi yn gallu bod yn ddull defnyddiol iawn yn enwedig os mae dulliau arall yn cael ei ddefnyddio hefyd oherwydd mae arsylwi yn gallu bod yn amheus os nad oes ffocws penodol i'r ymchwil. Roedd ffocws pendant i'r ymchwil hyn felly roedd y dull o arsylwi yn ddefnyddiol.

Er bod cyfweiliadau yn gryfder o'r fethodoleg oherwydd rydym yn derbyn teimladau a safbwynt y cyfranogwyr, teimlaf fod y plant yn ysgol A yn swil iawn yn ystod y cyfweiliad a ddim yn dweud yn wir sut oeddent yn teimlo. Felly er mwyn gwella gwnaethom newid y ffordd gofynnwyd y cwestiynau i fod yn fwy anffurfiol a fwy fel trafodaeth yn hytrach na chyfweiliad ffurfiol. Gwelwyd fod y plant yn fwy cyfforddus yn y ddau gyfweiliad canlynol.

Gan ddefnyddio dull o adfyfrio drwy edrych drwy bedwar 'lens' Brookfield (2015) roeddwn yn gallu deall yn well beth maent y cyfranogwyr a'r ymchwilwyr i gyd yn meddwl am y wers ac yn gallu defnyddio hyn er mwyn addasu'r wers ar gyfer yr un nesaf. Er oedd diffyg amser i adfyfrio yn ddwfn ar ddiwedd pob gwers yn syth fe lwyddon ni neud y newidiadau oedd angen gwneud yn gyflyn cyn y wers ganlynol.

Ar gyfer fy mhrofiad ysgol nesaf byddaf yn sicrhau i ddod i adnabod y plant gan gynnwys eu diddordebau yn ogystal â sut maent yn dysgu. Byddaf yn sicrhau bod y plant yn cael y cyfle i fod yn annibynnol gan ddarparu adnoddau a thasgau i gefnogi hyn. I wneud hwn yn

Ilwyddiannus maent bwysig bod y plant yn rhan o osod y MPLI ar gyfer pob gwers a thasg ac yn asesu dysgu eu hunan a'u gyfoedion hefyd. Bydd hyn yn galluogi'r plant i weld eu cynnydd a chymred cyfrifoldeb am eu dysgu eu hun.

Argymhellion

O ystyried y gwaith ymchwil hwn, credaf y pwysigrwydd o ddarparu cyfleoedd i blant fod yn annibynnol yn ôl Donaldson (2015) bod angen i athrawon ddarparu cyfleoedd i blant fod yn annibynnol er mwyn bod yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes. Gallent sicrhau hyn drwy gynllunio gwersi wrth ystyried y pedwar diben y cwricwlwm. Cytunwyd Estyn (2018a) wrth ddweud bod annibyniaeth yn codi safonau a chyraeddiadau plant wrth sicrhau bod y pedwar diben y cwricwlwm i Gymru yng nghanol ac yn seilio pob gwers arnynt.

Os byddaf yn gwneud ymchwil astudiaethau wers eto hoffwn beilot y dulliau gyntaf i sicrhau bod yn addas am bwrpas yr ymchwil. Cefais ddim cyfle i blotir dulliau ar gyfer yr ymchwil yma, efallai ni fyddaf wedi defnyddio'r cynllun arsylwi mor gaeedig y tro nesaf a ddim wedi paratoi cyfweiliad mor ffurfiol at gyfer y plant. O ran adfyfrio, byddaf yn sicrhau bod digon o amser i adfyfrio a pharatoi ar gyfer y wers ganlynol oherwydd roedd ddiffyg amser yn yr ymchwil yma.

Cyfrif eiriau- 5,052

Cyfeiriadau

Barnes, J. (2015) '*managing your classroom environment*' in Denby, N (gol.) *Training to teach*, London: Sage

Bearne, E (2010) 'providing for differentiation' in Arthur, J and Cremin, T (gol.) *Learning to teach in the primary school*, Oxon, Routledge.

Bell, J (2014) *Doing your Research Project*, a guide for first-time researchers in education, health and social science. Berkshire, Open University Press.

Black, P & Wiliam, D (1998) *Inside the Black Box: Raising standards through classroom assessment*, School of Education, King's College, London, United Kingdom. Ar gael yn: <https://www.rdc.udel.edu/wp-content/uploads/2015/04/InsideBlackBox.pdf> (Darllenwyd 10.02.20)

Blackburn, C. (2015) *Researching with young and developmentally young children – ethical considerations, dilemma's and compromises*. British Educational Research Association (BERA) Ar gael yn <https://www.bera.ac.uk/blog/researching-with-young-and-developmentally-young-children-ethical-considerations-dilemmas-and-compromises>

Brookfield, S (2017) *Becoming a critically reflective teacher*, John Wiley and Sons, San Francisco.

Cohen, M, Morrison, B, Manion, L, Morrison, K, and Bell, R (2011) . *Research Methods in Education*. (7th ed). London: Routledge,.

Donalson, G. *Dyfodol Llwyddianus* ar gael ar: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 10.2.20)

Dudley, P., (2014) *Lesson Study: a handbook*. Ar gael yn: <http://disde.minedu.gob.pe/bitstream/handle/123456789/5017/Lesson%2520Study%2520a%2520Handbook.pdf?sequence=1&isAllowed=y> (Darllenwyd: 2.2.20)

Dweck, C (2017) *Mindset*, Llundain: Robinson

Education Endowment Foundation (2017) *Lesson Study*. Ar gael yn: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/lesson-study/#closeSignup> (Darllenwyd: 2.2.20)

Estyn (2016) *Adborth effeithiol I gynorthwyo dysgwyr annibynnol*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/adborth-effeithiol-i-gynorthwyo-dysgwyr-annibynnol> (Darllenwyd 10.2.20)

Estyn (2018a) *Ymdrechu am ddygsu annibynnol i bob disgybl*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/ymdrechu-am-ddysgu-annibynnol-i-bob-disgybl> (Darllenwyd 8.2.20)

Estyn (2018b) *Asesu ar gyfer Dysgu a medrau meddwl*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/asesu-ar-gyfer-dysgu-medrau-meddwl> (Darllenwyd 17.2.20)

Estyn (2019) *Defnyddio gweithgareddau i hyrwyddo medrau annibyniaeth*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/defnyddio-gweithgareddau-i-hyrwyddo-medrau-annibyniaeth> (Darllenwyd 8.2.20)

Featherstone, S and Bayley, R (2006) *Foundation for independence: Developing Independent Learning in the Foundation Stage*, Featherstone education, Lutterworth.

Hattie, J (2012) *Visible learning for teachers*, Oxon: Routledge

Llywodraeth Cymru (2017) *Cyfnod Sylfaen*. Ar gael yn: <https://earlyyears.wales/our-work/foundation-phase/foundation-phase-profile-fpp/?lang=cy>

Meyer B, Haywood N, Sachdev D and Faraday, S (2008) *What is independent learning and what are the benefits for students?* London: Department for Children, Schools and Families Research Report 051

Perry, N., Phillips, L. and Hutchinson, L. (2006) "Mentoring Student Teachers to Support Self-Regulated Learning", *The Elementary School Journal*, 106(3), pp. 237-254. doi: 10.1086/501485.

Punch, K F and Oancea, A (2014) (2nd ed) *Introduction to Research Methods in Education*. London, Sage

Smidt, S (2013) *The developing child in the 21st Century*, Oxon, Routledge

Williams, J (2003) *Promoting Independent Learning in the Primary Classroom*. Buckingham, open university press.

Wilson a Murdoch (2009) *Learning for Themselves: Pathways to Independence in the Classroom*. London, Routledge